



Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Aspire Health and Beauty

Dyddiad arolygu: 09 Ebrill 2019

Dyddiad cyhoeddi: 10 Gorffennaf
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	17
4.	Beth nesaf?.....	19
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol.....	20
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	21
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	22

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Aspire Health and Beauty ar 9 Ebrill 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Aspire Health and Beauty yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol a bod ganddo staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarparwyd iddynt.

Gwelsom fod y clinig yn cael ei redeg yn dda ac yn bodloni'r rheoliadau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth a gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a gawsant.
- Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda a bod systemau effeithiol ar waith i gefnogi rheolwyr ac arweinwyr y practis yn gyffredinol
- Roedd y staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu rolau, roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n fedrus ac roedd ganddynt ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd y clinig yn cynnwys offer priodol ac roedd yn amlwg yn lân, yn daclus ac yn drefnus.
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau
- Mae cofnodion clinigol rhagorol yn cael eu cynnal.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth nac argymhellion ar gyfer gwella yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Aspire Health and Beauty wedi'i gofrestru'n ysbyty annibynnol am ei fod yn darparu triniaethau Technoleg Goleuni Pwls Dwys (IPL)¹ yn 13 Princes Drive, Bae Colwyn, LL29 8HT. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru yn y cyfeiriad hwn ers mis Mehefin 2018.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y tîm o staff yn cynnwys y rheolwr cofrestredig fel yr unig weithredwr laser yn ogystal ag un derbynnnydd. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu triniaethau canlynol i gleifion dros 18 oed:

- System Luminette IPL at gyfer y triniaethau canlynol:
- Gwaredu gwallt
- Adfywio'r croen
- Triniaeth acne
- Gwaredu briwiau fasgwlaidd
- Pigmentiad y croen.

¹ Technoleg ffynhonnell goleuni sbectwm eang yw IPL a chaiff ei defnyddio gan ymarferwyr meddygol a chosmetig i gynnal triniaethau amrywiol ar y croen at ddibenion aesthetig a therapiwtig.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Aspire Health and Beauty yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol iawn, a bod ganddo staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarparwyd iddynt.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y clinig i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir; cwblhawyd cyfanswm o 21 o holiaduron. Cwblhawyd yr holiaduron gan gleifion a oedd wedi bod yn mynychu'r clinig am gyfnodau amrywiol, o lai na flwyddyn i fwy na dwy flynedd.

Ar y cyfan, roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn, gyda phob un o'r cleifion yn nodi bod y gofal a'r driniaeth a gafwyd yn ardderchog. Ymhlith sylwadau'r cleifion a oedd yn canmol y gwasanaeth yn y clinig roedd y canlynol:

"Mae pawb yn broffesiynol ac yn gwneud eu gwaith yn wych: fyddwn i ddim yn mynd i unrhyw le arall"

"Mae hwn yn amgylchedd gwych - yn ymlaciol iawn ac rwyf yn teimlo fy mod mewn dwylo diogel"

"Cyfrinachedd llwyr, yn cynnal preifatrwydd cleifion bob amser, yn cael fy mharchu bob amser. Fel cleient rwyf yn teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi. Gwasanaeth personol yn rhagorol bob amser. Diolch"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r clinig wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu; roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Mae'r gwasanaeth yn wych, o safon uchel, ac yn canolbwyntio ar y cleient. Ni allaf nodi unrhyw feysydd y gellid eu gwella"

"Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg yn hynod o dda. Mae'n broffesiynol iawn, yn gyfeillgar ac yn groesawgar ac mae bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu"

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd yr holiadur ei fod wedi llenwi ffurflen hanes meddygol, a/neu fod rhywun wedi cadarnhau ei hanes meddygol, cyn iddo gael unrhyw driniaeth.

Gwelsom dystiolaeth bod y clinig yn gofyn i gleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol cyn y driniaeth gychwynnol, a holwyd a oedd unrhyw newidiadau ym mhob apwyntiad dilynol er mwyn helpu i sicrhau bod y driniaeth yn cael ei darparu mewn modd diogel.

Urddas a pharch

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno'n gryf iddo gael ei drin ag urddas a pharch gan y staff yn y clinig ac yn teimlo ei fod yn gallu cynnal ei breifatrwydd, ei urddas a'i wedduster ei hun bob amser yn ystod apwyntiadau.

Gwelsom fod modd cloi'r drws i'r ystafell driniaeth. Rhoddwyd tywelion i gleifion i ddiogelu'u hurddas os oedd angen, a rhoddwyd llonydd i gleifion ddadwisgo ar eu pen eu hunain os oedd angen.

Cynhaliwyd ymgynghoriadau â chleifion yn yr ystafell driniaeth er mwyn sicrhau y gellid trafod gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb gael eu clywed.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno'n gryf bod y staff bob amser yn gwrtais, yn garedig ac yn sensitif wrth roi gofal a thriniaethau.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Nodwyd gennym fod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth. Y rheswm dros hyn yw bod y cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb trylwyr cyn derbyn unrhyw driniaeth. Dywedwyd wrthym fod y trafodaethau hyn yn cynnwys risgiau, manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a gynigir. Gwelsom hefyd enghreifftiau o daflenni gwybodaeth manwl i gleifion.

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf clytiau cyn i'r driniaeth ddechrau er mwyn gweld a oedd yn addas i gael y driniaeth, a'r tebygolrwydd o unrhyw adwaith negyddol. Cynhaliwyd cofrestr triniaethau ac roedd gwybodaeth am y triniaethau hefyd yn cael ei chofnodi yn ffeiliau cleifion unigol.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod wedi cael digon o wybodaeth am ei driniaeth, gan gynnwys y risgiau, y dewis o wahanol driniaethau, y costau a'r gwasanaethau ôl-ofal. Dywedasant hefyd fod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiadau a'u bod bob amser yn llofnodi ffurflen gysyniad cyn cael unrhyw driniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion ar gael i gleifion fynd gyda nhw. Roedd y ddwy ddogfen yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir.

Dywedodd pob claf ond un a gwblhaodd holiadur wrthym mai Saesneg oedd ei ddewis iaith gan gadarnhau ei fod yn gallu siarad â'r staff yn ei ddewis iaith bob amser.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym hefyd fod y staff wedi gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys, cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys, mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

Mae gan y clinig wefan a'i thafenni gwybodaeth ei hun, sy'n darparu gwybodaeth am y triniaethau sydd ar gael a'r ôl-ofal.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom dystiolaeth bod dull clir a thryloyw o gynllunio triniaethau a'u prisio.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd pob claf yn cael apwyntiad ymgynghori cyn i'r driniaeth ddechrau, a oedd yn cynnwys asesiad o'r math o groen sydd ganddynt. Gwelsom enghreifftiau o ddogfennau gwybodaeth a dogfennau ôl-ofal da yn cael eu rhoi i gleifion, a oedd yn cynnwys manylion am y risgiau a'r manteision.

Roedd nodiadau cleifion unigol manwl iawn ar gael, a thystiolaeth o brosesau rhagorol ar gyfer cadw cofnodion. Roedd fformatau'r dogfennau'n dda, ac yn cynnwys math o groen, cydsyniad i driniaeth a hanes meddygol.

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod wedi cael prawf clytiau cyn dechrau cael unrhyw driniaeth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r clinig wedi'i leoli ar y llawr cyntaf ac ni all ddarparu mynediad i bobl anabl. Fodd bynnag, bydd y clinig yn rhoi manylion darparwr arall i gleifion nad ydynt yn gallu cael mynediad i'r lleoliad os bydd angen.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Gwelsom fod gan y clinig system ar waith i geisio adborth gan gleifion, fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gall cleifion ddarparu adborth drwy holiaduron ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Gwelsom fod canlyniadau'r arolwg diwethaf, a oedd yn gadarnhaol dros ben, yn ogystal â thystlythyrau'n cael eu cyhoeddi ar eu gwefan. Gall cleifion hefyd adael adborth dienw drwy ddefnyddio'r blwch sylwadau yn y dderbynfa.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y clinig yn cael ei redeg yn dda ac yn bodloni'r rheoliadau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Roedd yr ystafell driniaeth yn cynnwys yr offer priodol ac yn amlwg yn lân ac yn daclus iawn.

Gweithdrefnau cadw cofnodion rhagorol.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom dystiolaeth bod Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) wedi'u cynnal, er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gwiriad wedi'u cynnal ar y gwifrau trydanol o fewn y pum mlynedd diwethaf.

Gwnaethom edrych ar rai o'r trefniadau ar gyfer diogelwch tân. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig² y cynhaliwyd hyfforddiant diogelwch tân mewnol. Roedd y labeli gwasanaethu ar y teclynnau diffodd tân yn dangos eu bod yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol ac roedd arwyddion amlwg i ddangos ble roedd yr allanfeydd tân.

Roedd pecyn cymorth cyntaf brys ar gael ac roedd tri aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

² Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y gwasanaeth yn amlwg yn lân iawn, yn daclus ac yn drefnus. Gwnaethom drafod y trefniadau rheoli heintiau a oedd ar waith gyda'r rheolwr cofrestredig ac roeddem o'r farn bod y rhain yn briodol i ddiogelu cleifion rhag croes heintio.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y gwasanaeth; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus iawn.

Roedd gwastraff clinigol yn cael ei waredu'n briodol a gwelsom fod gan y gwasanaeth gontract ar waith gyda chludydd gwastraff cymeradwy.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 18 oed yn unig. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddent yn delio ag unrhyw broblemau a oedd yn ymwneud â diogelu oedolion. Roedd polisi diogelu ar waith. Fodd bynnag, gwelsom fod angen adolygu hwn a'i ddiweddarau. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i ddiweddarau'r polisi ar unwaith a gwnaethpwyd hyn yn ystod ein harolygiad.

Gwelsom dystiolaeth fod hyfforddiant staff ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed wedi cael ei gwblhau.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom dystiolaeth bod y peiriant IPL yn cael ei wasanaethu'n flynyddol ac roedd y dystysgrif calibradu'n gyfredol. Gwelsom fod protocolau triniaeth ar waith ar gyfer y peiriant IPL a'u bod yn cael eu goruchwylio gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Gwelsom fod contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau a rheolau lleol³ a oedd yn manylu ar sut i weithredu'r peiriant yn ddiogel. Roedd y

³ Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd.

rheolau lleol wedi'u hadolygu'n rheolaidd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ac wedi'u llofnodi gan y gweithredwr.

Roedd gan y clinig amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith a oedd yn cynnwys manylion am y ffordd y byddai'r clinig yn parhau i gynnig gwasanaethau pe byddai cyfarpar yn methu neu yn achos trychineb arall.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth⁴ a hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriant IPL.

Gwelsom fod cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i gleifion a'r gweithredwr. Roedd yn amlwg bod cyfarpar amddiffyn y llygaid mewn cyflwr da a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y sbectolau yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i weld a oeddent wedi'u difrodi.

Roedd arwydd y tu allan i'r ystafell driniaeth a oedd yn nodi pryd roedd y peiriant IPL yn cael ei ddefnyddio. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd fod drws yr ystafell driniaethau yn cael ei gloi pan fo'r peiriant yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad diawdurdod. Dywedwyd wrthym fod y peiriant yn cael ei gadw dan glo bob amser.

Roedd gan y clinig amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau, yn ogystal ag asesiadau risg amrywiol ar waith, megis tân ac iechyd a diogelwch, yn ymwneud â phob agwedd ar ofal clinigol a diogelwch . Roedd pob asesiad risg yn gyfredol a gwelsom dystiolaeth eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Gwelsom fod yr asesiadau risg amgylcheddol wedi'u hadolygu'n ddiweddar gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gan y clinig bolisi asesiadau risg dynodedig ar waith. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig lunio'r polisi ar unwaith ar ôl ein harolygiad.

⁴ Anelir hyfforddiant Craidd Gwybodaeth at weithredwyr sy'n defnyddio laserau a systemau IPL ar gyfer amrywiol driniaethau croen. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar sut i ddefnyddio laserau a systemau IPL yn ddiogel.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth fod gan y clinig systemau digonol ac addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Y rheswm dros hyn yw am fod y clinig, yn unol â'r rheoliadau, yn ceisio barn cleifion yn rheolaidd fel ffordd o lywio gofal, yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r cofnodion er mwyn sicrhau cysondeb y wybodaeth ac yn asesu risgiau mewn cysylltiad ag iechyd a diogelwch.

Rheoli cofnodion

Nodwyd gennym fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel yn y gwasanaeth.

Cafodd sampl o gofnodion cleifion eu hadolygu ac roedd dystiolaeth bod y clinig yn cadw cofnodion rhagorol, sy'n dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant cleifion.

Ym mhob achos, roedd y cofnodion a adolygwyd gennym wedi'u teilwra'n unigol i'r claf hwnnw ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol. Roedd y cofnodion yn glir iawn, yn ddarllenadwy ac o ansawdd rhagorol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom fod gan y clinig arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Gwelsom fod y gweithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd a oedd yn helpu i sicrhau ei fod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu yn ei waith.

Gwelsom fod gan y clinig amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar Aspire Health and Beauty ac yn ei redeg.

Gwnaethom edrych ar sampl o bolisiâu a gweithdrefnau a oedd ar waith yn y clinig, a gwelsom eu bod wedi'u hadolygu'n rheolaidd. Roedd y polisiâu a'r gweithdrefnau'n cynnwys dyddiadau fersiynau a / neu adolygu.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod llinellau atebolrwydd clir yn y clinig, a bod y staff yn ymwybodol iawn o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod gan y clinig bolisi cwynion ar waith a'i fod yn cynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer AGIC yn unol â'r gofynion rheoliadol. Roedd manylion y weithdrefn cwynion hefyd wedi'u cynnwys yn y datganiad o ddiben.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis system i gofnodi pryderon a chwynion ffurfiol ac anffurfiol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y rheolwr cofrestredig, a oedd yn gweithredu'r peiriant IPL, wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ynghyd â'r hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant IPL. Gwelsom hefyd fod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau cymwysterau ychwanegol mewn therapi laser ac IPL a'i fod yn gymwys i gynnal cyrsiau hyfforddi yn y maes hwn.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod y tîm staff presennol yn sefydliedig a disgrifiodd y prosesau recriwtio. Ni fyddai defnyddwyr awdurdodedig yn defnyddio'r peiriant IPL nes iddynt gael yr hyfforddiant priodol a nes bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Aspire Health and Beauty

Dyddiad arolygu: 9 Ebrill 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Nid yw'n ofynnol i'r gwasanaeth hwn lunio cynllun gwella.				
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Dd/G				
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dd/G				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad: